**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mehefin 2014**

## PERFFORMIAD ARIANNOL 2013-2014

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2013-14.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Mehefin 2014 i adolygu ei gynnwys cyn ei argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch ariannol am y flwyddyn 2013-14 er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

4 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu gwariant refeniw 2013-14 o'i gymharu â'r gyllideb, gyda'r dadansoddiad ariannol yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y cronfeydd a'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; ac mae'r darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar gynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod y gweithgarwch yn y flwyddyn mewn perthynas â chyfalaf, a gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## Cefndir

5 Y flwyddyn ariannol hon oedd blwyddyn olaf y strategaeth dair blynedd y cytunodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru arni, sef rhewi'r gyllideb o 2011-12 i 2013-14. Penderfynwyd hyn i ymateb i bwysau gan lywodraeth ganol i leihau gwariant yn y sector cyhoeddus. Effaith y penderfyniad oedd y byddai'n rhaid i unrhyw gynnydd mewn chwyddiant a dyfarniadau cyflog ddod o'r ddarpariaeth gyfredol yn y gyllideb. £2.4 miliwn oedd yr amcangyfrif ar gyfer hynny, neu 7.5% o'r gyllideb. Hefyd, yn y flwyddyn olaf hon, penderfynwyd cael gostyngiad o 1%. Byddai'r rhan fwyaf o'r arbedion yn dod drwy ailgyflunio a newid arferion gwaith ymhob rhan o'r Gwasanaeth, o staff gweithredol i'r rhai sy'n gysylltiedig â gwaith yr ystafell reoli, diogelwch cymunedol a gwaith cefnogol. Ar ôl ymgynghori'n helaeth gyda'r staff a'u cyrff cynrychioliadol, cyflwynwyd newidiadau i ofal swyddogion ar yr ochr weithredol, gan ostwng nifer y swyddi 29% a chylchrestru diffoddwyr tân y system amser cyflawn, gan ostwng nifer y swyddi 10%. Gwnaethpwyd hyn heb ddiswyddo neb. Yn gyffredinol, mae'r gyllideb cyflogau wedi lleihau o £22.95 miliwn yn 2010-2011 i £20.55 miliwn yn 2013-14, sef arbediad o £2.4 miliwn. Rhoddwyd y strategaeth hon ar waith yn llwyddiannus, a chyrhaeddwyd y targed arbedion, ynghyd ag arbedion unigol ychwanegol o ganlyniad i reoli'r gyllideb yn ofalus a threialu system hyblyg newydd ar gyfer gorsafoedd y system RDS. Mae'r swyddogion yn ymwybodol y bydd angen arbedion ychwanegol yn y dyfodol, gan fod y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2014-15 yn un ddigyfnewid, gyda £406k yn dod o'r gronfa gyffredinol wrth gefn.

## Gweithgarwch Refeniw

### Gweithwyr

6 Fel y gwelir yn y graff, mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau; 68% yn 2013-14. Mae'r gostyngiad yng nghostau cyflogau dros y tair blynedd yn dangos llwyddiant y strategaeth y cytunodd yr Aelodau arni i wneud arbedion drwy newid y modd y darperir gwasanaethau. Ar y cyfan, roedd tanwariant o £959k mewn perthynas â chyllideb net cyflogau, sydd fymryn yn uwch na'r amcangyfrif o £929k a ddarparwyd i'r Aelodau ym mis Mawrth 2014. Mae'r arbediad ychwanegol yn bennaf oherwydd aethpwyd ati mewn ffordd ddarbodus i adrodd ynghylch yr amcangyfrifon alldro ar gyfer ffioedd digwyddiadau fel bod modd ymorol am unrhyw hapddigwyddiadau posibl.

7 Mae gorwariant mewn perthynas â chyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn. Nid oedd y rhain yn rhan o'r amcangyfrif gwreiddiol, ac nid ydynt yn cael eu hariannu trwy'r cyfrif pensiynau. Mae'r gorwariant ar bensiynau llywodraeth leol oherwydd i'r cyflogwr wneud taliad i'r gronfa bensiynau i ymorol am gostau gweithwyr a ymddeolodd yn gynnar a gadael eu swyddi er mwyn gallu gweithredu'r ailstrwythuriad.

8 Gellir priodoli'r tanwariant ar staff cefnogol i ailstrwythuriad sydd wedi arwain at swyddi gweigion yn cael eu llenwi yn hwyrach na'r disgwyl, a nifer o swyddi heb gael eu llenwi ar hyn o bryd. Gyda'r angen i wneud arbedion yn y blynyddoedd i ddod, disgwylir cael gwared ar nifer o'r swyddi gweigion hyn.

9 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant cyflogau yn gysylltiedig â diffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw (system RDS), sef £696k. Mae'r aelodau wedi cael gwybod am drafferthion recriwtio diffoddwyr tân i'r system RDS, ac er bod ymgyrch recriwtio wedi cael ei chynnal, mae'r nifer yn dal yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, ac mae hynny wedi arwain at arbedion mewn ffioedd cadw a ffioedd ymarfer. Er mwyn lliniaru'r effaith, mae'r Gwasanaeth wedi treialu system hyblyg newydd pryd y bydd y gofal ar rai gorsafoedd RDS yn cael ei ategu gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn yn darparu oriau ychwanegol pan fo angen.

10 Oherwydd nifer isel y recriwtiaid yn ystod y flwyddyn, mae £44k o danwariant yn y gyllideb hyfforddiant.

11 Mae'r tanwariant bychan yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Cynorthwyol sydd heb ei llenwi eto.

**Safleoedd**

12 Mae gorwariant yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd i rai o'r eitemau bychain o wariant gael eu hailddosbarthu o gyfalaf i refeniw. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o arbedion yn y blynyddoedd i ddod ar ffioedd ariannu cyfalaf oherwydd y bydd y costau refeniw yn llai.

13 Mae’r costau ynni wedi codi’n sylweddol dros y blynyddoedd, ac er mwyn lleihau faint a ddefnyddir a’r costau, gosodwyd mesurau sy’n cael eu goruchwylio gan swyddog monitro ynni (swydd ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru). Mae’r mesurau wedi arwain at sicrhau bod y costau ynni o fewn y gyllideb ac yn llai na gwariant y flwyddyn flaenorol (£13k yn llai na’r llynedd).

**Cludiant**

14 Ar y cyfan, mae tanwariant o £138k yn y gyllideb Cludiant. Digwyddodd hyn oherwydd y penderfyniad darbodus i ymestyn cyfnod y brydles ar cerbydau yn y cynllun ceir hûr, gan arwain at ostyngiad yn y taliadau prydlesu blynyddol. Mae gwariant ar danwydd wedi lleihau eleni oherwydd gostyngiad yn y milltiroedd a deithwyd a’r ffaith fod cyfyngydd cyflymder wedi ei roi yn y rhan fwyaf o gerbydau’r fflyd. Bu’n rhaid ymestyn y ffrydiau gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer adran y fflyd oherwydd y bu’n rhaid paratoi ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac o ganlyniad i hyn, bu gostyngiad yn y costau atgyweirio a chynnal a chadw. Bydd y costau hyn yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Cyflenwadau**

15 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, mae gorwariant ar Offer yr Ochr Weithredol oherwydd cynnydd yng nghost contractau hydrolig allanol ac adnewyddu rhai offer ffitrwydd fel taliad unigol. Y flwyddyn nesaf, bydd y gwaith hydrolig yn cael ei wneud yn fewnol er mwyn lleihau costau.

16 Mae’r tanwariant ar lifrai oherwydd mai bach oedd nifer y recriwtiaid yn ystod y flwyddyn, gan arwain at lai o lifrai a llai o gyfarpar. Mae’r gwariant ar Argraffu ac Offer Swyddfa yn llai oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio a bod yn ddoethach wrth gaffael.

17 Mae tanwariant yn y gyllideb “Diogelwch Tân Cyffredinol” yn bennaf oherwydd gordaliad ar atgyweirio hydrantau yn y flwyddyn flaenorol, a hynny wedi ei wrthbwyso yn erbyn gwariant eleni.

18 Mae tanwariant ar gostau Cyfathrebiadau o ganlyniad i negodi arbedion ar gostau rhenti llinellau.

19 Mae dyletswydd yr Awdurdod i sicrhau bod adnoddau yn eu lle i ddarparu gofal tân digonol drwy'r amser. O ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol, bu'n rhaid cael cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd angen adnoddau ychwanegol. Y gost i'r Awdurdod am sicrhau bod adnoddau ar gael oedd £151k, ac nid oedd cyllideb wedi ei gosod ar gyfer hyn.

20 Cafodd Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ei sefydlu yn 2012 i wella gwaith ar y cyd, cyflwyno gwasanaethau a gwella gwasanaethau'n barhaus. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gyfrannu at gost cydlynydd y PMC, a chaiff hyn ei wrthbwyso gan yr arbedion a grëir gan y PMC.

**Gwasanaethau Cefnogol**

21 Mae'r tanwariant at gostau cynnal a chadw tiroedd oherwydd bod aildendro'r contract mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru wedi arwain at gostau is.

22 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyngor cyfreithiol cyflogaeth yn uwch na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y bu angen ymgynghori â chyfreithwyr cyflogaeth ynglŷn â nifer o faterion a gododd yn ystod y flwyddyn.

**Cyllid Cyfalaf**

23 Mae ffioedd dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin, ynghyd â'r defnydd o fenthyciadau tymor byr y tu allan i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r oedi ar rai prosiectau mawr megis gorsafoedd tân Wrecsam, Tywyn a Nefyn.

24 Mae ffioedd prydlesu yn is na'r gyllideb o ganlyniad i ailstrwythuro'r portffolio prydlesu y llynedd, gan arwain at lai o gostau refeniw.

**Incwm**

25 Mae'r incwm o werthiant wedi cynyddu ar ôl gwerthu nifer o gerbydau a oedd wedi eu dadgomisiynu.

26 Mae’r incwm o alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na’r gyllideb oherwydd bod yr Awdurdod wedi mynd at lai o digwyddiadau y gall godi tâl amdanynt.

27 Mae’r llog ar falansau hefyd yn is na’r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin. Fodd bynnag, gwnaed iawn am hyn oherwydd y gostyngiad yn y llog i’w dalu ar fenthyciadau.

28 Incwm cynllunio brys yw ad-daliad costau ar gyfer cynlluniau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd gwariant o’r fath yn amrywio yn unol â’r incwm a ddaw i law.

**Tanwariant**

29 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Rhagfyr 2013, cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor i ddefnyddio’r gyllideb refeniw i ariannu rhan o’r rhaglen gyfalaf yn y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn lleihau costau dyledion yn y dyfodol o ganlyniad i’r rhaglen gyfredol ac yn lleihau codiadau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol, cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Mawrth 2014 y gellid defnyddio unrhyw danwariannau sy’n weddill ac sy’n uwch na’r rhai a adroddwyd eisoes i wrthbwyso’r costau hyn.

30 Derbyniodd diffoddwyr tân y system RDS ôl-daliad yn gysylltiedig â’u hawliad o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000. Nid oedd y cytundeb a gafwyd yn ymestyn i’r hawliad pensiynau. Mae’r trafodaethau wedi dod i ben rhwng Undeb yr FBU a’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG). Byddant yn rhoi mynediad yn ôl-weithredol i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Gwnaed asesiad o’r costau i’r Awdurdod o ôl-ddyddio cyfraniad y cyflogwr i ddiffoddwyr tân y system RDS a oedd yn gweithio rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006. Amcangyfrifir y gallai cyfanswm y gost i’r Awdurdod fod tua £960k. Oherwydd y posibilrwydd hwn, neilltuwyd £300k mewn darpariaeth y llynedd i wrthbwyso rhywfaint o’r ymrwymiad. Felly, ystyrir mai doeth fyddai defnyddio rhywfaint o’r tanwariant i ychwanegu at y ddarpariaeth hon fel y bydd gan y Gwasanaeth arian ar gael i gwrdd â’r ymrwymiad hwn pan wneir y setliad.

## Cronfeydd wrth gefn

31 Cronfeydd wrth gefn yw 'cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd gan yr Awdurdod £1,690k mewn cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2013, ac o ganlyniad i reoli'r gyllideb yn effeithiol, nid oedd wedi gorfod defnyddio'r gronfa hon i ariannu gwariant yn 2013-14.

32 Doeth o beth yw i'r Awdurdod ddal cronfa gyffredinol wrth gefn, a dyma'r meysydd lle y disgwylir ei defnyddio:-

- i wrthbwyso'r gyllideb yn 2014-15; ac
- i ymorol am unrhyw ymrwymiadau a allai ddigwydd ar hap.

33 O ganlyniad i drosglwyddo cronfeydd a glustnodwyd y llynedd ac nad oes mo'u hangen mwyach, balans y gronfa gyffredinol fydd £1,725k.

34 Y gronfa a glustnodwyd sy'n weddill ac a gymeradwywyd gan yr Aelodau y llynedd yw'r "Gronfa Log", ar £100k. Sefydlwyd y gronfa hon i wrthbwyso'r risg o gynnydd mewn cyfraddau llog, a'r Pwyllgor Archwilio ofynnodd yn benodol amdani.

35 Argymhellir sefydlu "Cronfa Gyfalaf" newydd i'w defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf pan fo'n fwyaf manteisiol i wneud hynny, a hynny er mwyn gwneud y gorau o'r arbedion a geir drwy leihau costau dyledion cyllidebau yn y dyfodol.

## Darpariaethau

35 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw Darpariaethau erioed. Darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'. Rhoddir manylion y darpariaethau isod.

36 Mae gan yr Awdurdod "Ddarpariaeth Bensiynau" i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau i ariannu ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn. Ni fu unrhyw symudiad yn y ddarpariaeth eleni oherwydd bu'n bosibl ariannu'r costau hyn eleni o'r gyllideb refeniw.

37 Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o setliad yr ôl-daliad i ddiffoddwyr tân y system RDS yn ystod 2012-13 (£505k). Roedd taliadau'n dal i gael eu gwneud yn 2013-14, a disgwylir y bydd rhywfaint o hawliadau eto yn 2014-15. Bydd y ddarpariaeth yn ddigon i ymorol am unrhyw ôl-daliad sy'n weddill.

38 Fel y nodir ym mharagraff 30, bu'n rhaid cynyddu'r ddarpariaeth ar hawliad pensiwn ôl-weithredol diffoddwyr tân y system RDS. Cynyddwyd y ddarpariaeth i £636k, a dylai hynny fod yn ddigon i gwrdd â'r holl ymrwymiad gan nad oes disgwyl y bydd yr holl staff sy'n gymwys yn manteisio ar ôl-ddyddio eu gwasanaeth pensiynadwy.

39 Fel y gŵyr yr Aelodau, roedd rhai problemau'n ymwneud â phrosiect Wrecsam, a'r llynedd bu'n rhaid neilltuo arian i ymorol am y ffioedd hyd at 31 Mawrth 2013 rhag ofn na ellid dyrannu'r costau hyn i'r rhaglen gyfalaf. Erbyn hyn mae'r prosiect wedi symud yn ei flaen a gosodwyd yr archeb gyda'r contractwr felly nid oes raid cadw'r ddarpariaeth hon mwyach. Argymhellir trosglwyddo balans y ddarpariaeth hon i'r "Gronfa Gyfalaf" newydd (paragraff 35) i wrthbwyso costau dyledion yn y dyfodol.

## Cynlluniau sy'n derbyn Arian Grant

40 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o gynlluniau; cyfanswm yr arian a dderbyniwyd yw £2.1 miliwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r manteision i'r gymuned o ganlyniad i'r cynlluniau hyn. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

41 Gosodwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2012, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd, ynghyd ag arian yn cael ei gario drosodd o flynyddoedd blaenorol.

42 Roedd rhagor o oedi cyn dechrau prosiect Wrecsam yn golygu bod y gwariant yn llai na'r disgwyl. Unwaith eto, mae'r gyllideb wedi ei chario drosodd er mwyn gofalu bod arian yn ei le.

43 Roedd tanwariant ar y gyllideb ar gyfer y gwaith cynnal a chadw a mân waith adeiladau a oedd yn yr arfaeth gan fod gwerth £54k o eitemau bychain o wariant cyfalaf ar waith cynnal a chadw wedi ei drosglwyddo i refeniw am y rhesymau a roddir ym mharagraff 12 uchod.

44 Bu rhywfaint o wario ar orsafoedd tân newydd Nefyn a Thywyn. Roedd y prosiectau hyn yn rhan o raglen 2012-13 felly nid oeddent wedi eu cynnwys yng nghyllideb 2013-14. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar y ddau brosiect hyn yn digwydd yn 2014-15.

**CASGLIAD**

45 Ers 2011-12, mae'r swyddogion wedi gweithredu cynlluniau i sicrhau'r arbedion y cytunodd yr Aelodau arnynt dros gyfnod o dair blynedd. I'ch atgoffa, y targed arbedion ym mlwyddyn 3 (2013-14) oedd £835k. Drwy gadw rheolaeth lem ar y gyllideb a'r newidiadau a oedd yn yr arfaeth i wasanaethau, cyrhaeddwyd y targedau arbedion y cytunwyd arnynt. Gwnaed arbedion pellach ym mlwyddyn 3 i sicrhau bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i ymorol am unrhyw gostau pontio a allai ddigwydd pan gytunir ar y strategaeth newydd.

**ARGYMHELLIAD**

46 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo:-

(i) trosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel y nodir ar dudalen 3 o Atodiad A;
(ii) trosglwyddo rhwng y cronfeydd a'r darpariaethau fel y nodir yn Atodiad B.